**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**4/6/24**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Alwyn M Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards (*Teams),* Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones (*Teams*), Euros Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**3049** **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd a llongyfarchwyd disgyblion yr ardal – a'u hyfforddwyr – ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd ym Maldwyn**.** Llongyfarchwyd pawb ar eu llwyddiant yn Rali CFFI Meirionnydd yn ddiweddar. Mae'r Clwb Pêl Droed hefyd wedi dod a chlod i'r ardal eto eleni.
Adroddodd y Cadeirydd o Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru (Meirionnydd). Y pwnc dan sylw oedd LLAIS – sef llais y bobl am faterion iechyd.

**3050** **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau Alwyn E Jones.

**3051** **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau o fuddiant gan Dewi Wyn Jones, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones ac Alwyn M Roberts ym mater cais cynllunio CPD Llanuwchllyn **NP5/71/480A**.

**3052** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cyfarfod 7/5/24.

**3053** **Materion y Clerc**

i. Cymeradwywyd adroddiad yr Is-bwyllgor Croeso a diolchwyd iddynt am baratoi rhaglen ddifyr o groeso i'r ymwelwyr o'r Gaiman. Diolchwyd hefyd i Eleri Roberts am ei chyfraniad gwerthfawr i'r Is-bwyllgor Croeso. Diolchwyd i Huw Antur am baratoi cais am grant i Barc Cenedlaethol Eryri.
ii. Adroddiad o gyfarfod "Cynllun Adfywio Ardal Y Bala a Phenllyn": dywedodd Huw Antur fod y cynllun wedi ei fabwysiadu a blaenoriaethau wedi eu pennu.
iii. Y gwasanaeth bysiau: gwnaethpwyd sawl ymgais i drefnu cyfarfod gyda Gethin George ond prin iawn oedd ei ymatebion. Cytunwyd i anfon at Lee Robinson (tfw).

**3054** **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd. Soniodd Alan Jones Evans am y gwrandawiad Panel Cynllunio a gynhelir ar 24/6/24 parthed Clirffordd ar hyd y B4403 o'r Groesffordd i'r Bala.

Deellir fod adroddiad dichonoldeb a dyluniad ar y gweill ar gyfer creu man croesi'n ddiogel o Lwybr Tegid i Lwybr Cei.

Disgwylir bydd y polyn lamp wrth Ceniarth wedi ei adleoli cyn Sioe Llanuwchllyn .

**3055** **Is-bwyllgorau**

i. Yr Adroddiad Blynyddol: trafodwyd bwriadau'r Cyngor am y flwyddyn.

**ii.** Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:

1. Pwyllgor Datblygu: Mynychodd Huw Antur a'r Clerc digwyddiad "Tai ar Daith" yn Nolgellau a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd. O ganlyniad penderfynwyd cynnal cyfarfod rhwng aelodau'r Pwyllgor Datblygu a Sylfeini, Elusen Maurice Vaughan a Phwyllgor Datblygu Menter Gymunedol Llanuwchllyn i drafod y sefyllfa dai yn y pentref. (17/6/24)
2. Mynwentydd: diolchwyd i Heledd Jones am dynnu lluniau a chofnodi'r cerrig sydd angen sylw. Bydd yr Ymgymerwyr lleol yn cynnal cyfarfod safle gyda Swyddog y Fynwent i ystyried y gwaith sydd ei angen.
   Bydd yr Is-bwyllgor yn edrych eto ar eiriad ffioedd y fynwent gyda'r egwyddor fod gweithio tir amaethyddol yn yr ardal yn gallu cael ei ystyried ar gyfer ffioedd ar y Raddfa Leol. Cytunwyd i ddefnyddio'r Raddfa Leol ar gyfer achos diweddar.
3. Bioamrywiaeth: Tynnwyd y camera o'r goedlan; nid oedd unrhyw dystiolaeth o fywyd gwyllt. Mae swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri felly yn barod i ddylunio cynllun ar gyfer y goedlan ac fe fydd y gwaith yn cael ei wneud yn yr hydref. Mae 2 twb o flodau bron yn barod i'w gosod.
4. Nadolig: Dim i'w adrodd ar hyn o bryd.
5. Asedau: Cwblhawyd y gwaith o baentio'r toiledau mewn da bryd. Dangosodd camera Dwr Cymru fod rhan o'r draen tu allan i'r toiledau wedi dymchwel a bu J Manzini a Gethin Williams yn gweithio'n galed i greu draeniau newydd. Diolchwyd iddynt am eu parodrwydd i ymateb unwaith eto.
6. Cyllid: Dim i'w adrodd ar hyn o bryd.

**3056 Ystyried Materion Ariannol**

i. Mae'r Archwilydd Mewnol wedi cwblhau ei waith ac wedi e-bostio ei fod yn fodlon gyda'r Datganiad Blynyddol a'r tystiolaeth a anfonwyd ato. Ystyriwyd y Datganiadau a chytunwyd bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Blynyddol yn gywir ac yn barod i'w hanfon at Archwilydd Cymru.
Mynegwyd awgrym fod yr is-Bwyllgor Cyllid yn ystyried y rhain yn y dyfodol a dod ag argymhelliad gerbron y Cyngor llawn.

ii. Ystyriwyd Derbyniadau ac Anfonebau'r mis a chytunwyd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Taliadau** | |
| Cyflog y Clerc | |
| CThEF | 150.00 |
| Yswiriant | 643.35 |
| Cynnal y toiledau | 167.00 |
| Dwr Cymru | 241.46 |
| Un Llais Cymru | 131.00 |
| Gweithgareddau Croeso | 200.00 |
| Cynnal a chadw tir | 490.00 |
| *Wedi archebu papur Swyddfa o Viking* | |

| | |
|---|---|
| **Derbyniadau:** | |
| Cyfraniadau arian rhydd – mis Mai | 92.84 |

iii. Ystyriwyd Anfoneb Swyddfa Archwilio 2020-21 - £200.00. Cytunwyd i'r Clerc anfon i ddweud nad fydd y Cyngor yn talu hwn gan roedd yr Adroddiad lawer rhy hwyr yn cyrraedd (Tachwedd 2023) i fod o ddefnydd. Cytunwyd i anfon at Un Llais Cymru i fynegi anfodlonrwydd am Adroddiadau hwyr.

**3057 Menter Gymunedol Llanuwchllyn :** Derbyniwyd Adroddiad Huw Antur a soniodd am y Cyfarfod Blynyddol ar 26/5/23. Dywedodd fod ceisiadau am grantiau mewn llaw i wella strwythur yr Eagles ac i leihâi'r defnydd o ynni. Bu trafodaethau pellach gyda'r Eglwys yng Nghymru ynglŷn a throsglwyddo'r adeilad. Ar hyn o bryd mae'r Eglwys yn gwneud gwaith diogelu brys ar yr adeilad.

**3058 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd gwybodaeth mai Cwmni Pum Plwy Penllyn sydd erbyn hyn yn gyfrifol am Ganolfan Bro Tegid.

**3059 Cynllunio:** Cadarnhawyd cymeradwyo cais **NP5/71/480A** i godi stand ar gae CPD Llanuwchllyn (ymgynghoriad trwy e-bost).

**3060 Gohebiaeth:**

i. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth **am** gynaeafu coed yn ardal Pantclyd am 6-8 wythnos.

ii. **Neuadd Bentref Llanuwchllyn:** Nodwyd gyda diolch dderbyn copi er gwybodaeth o Adroddiad Ariannol y Neuadd.

iii. **Un Llais Cymru**

a. Nodwyd derbyn canllawiau ar wahanol agweddau o weithio yn ddigidol
b. Derbyniwyd arweiniad ar Recriwtio a chadw staff, a bydd hwn yn cael ei drafod gan yr Is-bwyllgor Cyllid.

**3061 Materion lleol y Cynghorwyr:**

Nododd y Cynghorydd Alan Jones Evans y pryder am y gwrych sydd wedi gor-dyfu i'r ffordd yn Ty'n Ddôl.

Holwyd pa bryd byddai'r cabinet telegyfathrebu yn barod yng Nghynllwyd, ac awgrymwyd mai cysylltu gyda Swyddfa Mabon ap Gwynfor fyddai'r ffordd orau i gael ateb.

**3062 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 2/7/24 yn y Neuadd Bentref.